



Briff Ymchwil
**Gofal Iechyd Parhaus y GIG
yng Nghymru – Beth sydd
angen i mi ei wybod?**

Awdur: **Amy Clifton**
Dyddiad: **Mehefin 2016**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Amy Clifton**

Dyddiad: **Mehefin 2016**

Rhif Papur: **16-038**

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

🌐: Cynulliad.Cymru/Pigion

🐦: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

🌐: Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Gofal Iechyd Parhaus y GIG yng Nghymru – Beth sydd angen i mi ei wybod?

Atebion i gwestiynau cyffredin ynghylch Gofal Iechyd Parhaus y GIG yng Nghymru.



Cynnwys

1. Beth yw Gofal Iechyd Parhaus y GIG a phwy sy'n gymwys i'w dderbyn?	1
2. Sut mae Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn cael ei asesu?	1
Ôl-hawliadau.....	2
3. A yw'r meini prawf o ran cymhwyster wedi newid yn ddiweddar?.....	2
4. Beth os nad yw person yn gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG neu Ofal Nyrsio a Ariennir?.....	3
Apeliadau.....	3
Talu am ofal	3

1. Beth yw Gofal Iechyd Parhaus y GIG a phwy sy'n gymwys i'w dderbyn?

Pecyn gofal yw Gofal Iechyd Parhaus y GIG a drefnir ac a ariennir gan y GIG yn unig.

Mae'r pecyn hwn ar gael i bobl yr aseswyd bod ganddynt **angen iechyd sylfaenol**; hynny yw, pan fo'r gofal sydd ei angen arnynt yn bennaf yn ymwneud ag iechyd. Caiff hyn ei benderfynu drwy asesu natur eu hanghenion a lefel y gofal sydd ei angen i reoli'r anghenion hyn. Gellir darparu Gofal Iechyd Parhaus y GIG mewn unrhyw leoliad, gan gynnwys cartref y person ei hun neu gartref gofal.

Yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru (Mehefin 2014), roedd tua 5,500 o bobl yng Nghymru yn derbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG, ar gost flynyddol o tua £278 miliwn i'r Byrddau Iechyd Lleol.

Mewn cartref gofal, os yw person yn gymwys i dderbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG, y GIG sy'n talu am gyfanswm ffioedd eu cartref gofal. Fodd bynnag, pan fo gofal yn cael ei drefnu gan y gwasanaethau cymdeithasol, mae'n bosibl y codir tâl yn dibynnu ar incwm y person, cynilion ac asedau cyfalaf.

Mae Gofal Iechyd Parhaus y GIG hefyd yn wahanol i 'Ofal Nyrsio a Ariennir' a ddarperir i bobl mewn cartrefi nyrsio. Gofal Nyrsio a Ariennir yw taliad y GIG tuag at gostau gofal nyrsio (a ddarperir gan nyrsys cofrestredig). Os nad yw person yn gymwys i dderbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG ond mae angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol arnynt i ddiwallu eu hanghenion unigol, mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddynt dalu naill ai am gyfran o'r gofal a ddarperir gan y gwasanaethau cymdeithasol neu am yr holl ofal perthnasol, ond bydd y GIG yn darparu ar gyfer eu hanghenion gofal iechyd. Os yw person yn cael ei roi mewn cartref nyrsio ac nid yw'n gymwys i dderbyn Gofal Iechyd Parhaus, gall ddisgwyl cael cyfuniad o:

- wasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan y GIG; a
- gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan yr awdurdod lleol ar sail prawf modd

2. Sut mae Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn cael ei asesu?

Mae'r **Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG** gan Lywodraeth Cymru yn nodi proses orfodol i'r GIG ei dilyn i asesu anghenion iechyd, penderfynu ar gymhwyster ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG a darparu gofal priodol i oedolion.

Mae'r fframwaith yn nodi y dylai'r materion a ganlyn gael eu hystyried yn y broses asesu:

- Natur - y math o anghenion (gan gynnwys anghenion corfforol, iechyd meddwl neu seicolegol) a'u heffaith gyffredinol ar yr unigolyn, gan gynnwys y math o ymyriadau sydd eu hangen i'w rheoli.
- Dwysedd - maint a difrifoldeb yr anghenion a'r cymorth sydd ei angen i'w diwallu, gan gynnwys yr angen am ofal parhaol/parhaus ('parhad').
- Cymhlethdod - sut mae'r anghenion yn dod i'r amlwg ac yn rhyngweithio â'i gilydd er mwyn cynyddu'r sgiliau sydd eu hangen i fonitro'r symptomau, trin y cyflwr (cyflyrau) a/neu reoli'r gofal. Gall hyn ddigwydd ag un cyflwr, neu gallai gynnwys sawl cyflwr neu'r ffordd y mae dau gyflwr neu fwy yn rhyngweithio â'i gilydd.
- Natur anrhagweladwy - i ba raddau mae anghenion yn amrywio ac felly'n creu heriau o ran eu rheoli. Mae hefyd yn ymwneud â'r risg i iechyd y person os na chaiff gofal digonol ac amserol ei ddarparu.

Mae'r Fframwaith yn datgan y dylai penderfyniadau ynghylch cymhwyster fod yn seiliedig ar anghenion iechyd ac nid ar ystyriaethau cyllidebol, ac y dylai'r penderfyniadau hyn gynnwys cleifion a, lle y bo'n briodol, teuluoedd, gofalwyr neu eiriolwyr yn llawn.

Defnyddir y wybodaeth a gesglir yn ystod yr asesiad i gwblhau 'Pecyn Cymorth i Benderfynu' i helpu gyda phenderfyniadau ynghylch cymhwyster. Mae'r Pecyn Cymorth i Benderfynu yn cynnwys y deuddeg parth a ganlyn, y mae pob un ohonynt wedi'i rannu yn ôl lefelau angen:

- Ymddygiad
- Gwybyddiaeth
- Anghenion seicolegol ac emosiynol
- Cyfathrebu
- Symudedd
- Maeth
- Ymataliaeth
- Croen
- Anadlu
- Meddyginiaeth
- Newid mewn cyflyrau ymwybyddiaeth
- Mae angen ystyried anghenion gofal sylweddol eraill

Caiff pob parth ei sgorio yn ôl categori'r anghenion, sy'n amrywio o 'dim anghenion'; 'isell'; 'cymhedrol'; 'uchel'; a 'difrifol'; i 'blaenoriaeth'.

Mae rhagor o wybodaeth am gymhwyster a'r asesiad ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Ôl-hawliadau

Gall unigolyn neu ei gynrychiolydd ofyn am adolygiad ôl-weithredol lle maent wedi cyfrannu at gostau eu gofal ond bod ganddynt reswm dros gredu y gallant fod wedi bodloni'r meini prawf o ran cymhwyster ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG a oedd yn berthnasol ar y pryd.

Rhaid i'r cyfnod hawlio fod **ddim mwy na 12 mis yn ôl o ddyddiad y cais am adolygiad**. Mae rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais am adolygiad ôl-weithredol ar gael ar y [daflen hon gan Lywodraeth Cymru](#) (PDF, 55KB).

3. A yw'r meini prawf o ran cymhwyster wedi newid yn ddiweddar?

Ydyn, adolygodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith ym mis Mehefin 2014, ar ôl adolygu ei Fframwaith ar gyfer 2010 yn 2013-14. Disodlwyd y Pecyn Cymorth i Benderfynu blaenorol yng Nghymru gan y pecyn cymorth a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd yn Lloegr ym mis Tachwedd 2012.

Teimlwyd y byddai'r newid hwn i'r Pecyn Cymorth i Benderfynu yn hwyluso gwaith trawsffiniol ac yn lleihau risgiau a nodwyd y gallai anomaledau rhwng y ddau becyn (fel gwahaniaethau yn y lefelau o angen a nodwyd mewn rhai parthau) fod yn anfanteisiol i rai pobl yng Nghymru. Hefyd, dywedodd ymarferwyr fod fersiwn ddiweddaraf y Pecyn Cymorth i Benderfynu yn Lloegr yn fwy hylaw.

4. Beth os nad yw person yn gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG neu Ofal Nyrsio a Ariennir?

Apeliadau

Os nad yw unigolyn yn hapus â'r penderfyniad a wnaed, mae ganddynt yr hawl i ofyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol adolygu'r penderfyniad ynghylch eu cymhwyster i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG neu Ofal Nyrsio a Ariennir.

Gall y person hefyd ofyn am adolygiad annibynnol o'r penderfyniad os nad ydynt yn hapus â'r materion a ganlyn:

- y weithdrefn a ddilynwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol wrth ddod i benderfyniadau ar eu cymhwyster; neu'r
- camau a gymerwyd i ystyried 'angen iechyd sylfaenol'.

Os bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn cadw at ei benderfyniad gwreiddiol ac mae'r unigolyn yn dymuno herio hyn ymhellach, gallant ofyn i wneud cwyn drwy **weithdrefn gwynion y GIG**. **Mae Cyngorau Iechyd Cymuned** yn cynnig gwasanaethau eiriolaeth ynghylch cwynion i gefnogi pobl wrth wneud cwyn.

Os bydd y person yn parhau'n anfodlon, gallant gysylltu ag **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**.

Talu am ofal

Gofal preswyl

Disgwylir i'r rhan fwyaf o bobl y mae angen gofal preswyl arnynt (nad ydynt yn gymwys ar gyfer cael Gofal Iechyd Parhaus y GIG) gyfrannu at gostau eu llety a'u gofal personol o'u hincwm personol (er enghraifft, eu pensiwn) a/neu gyfalaf (asedau ac eiddo). Bydd hyn yn cael ei asesu drwy brawf modd os yw'r awdurdod lleol yn rhan o'r gwaith o drefnu'r lleoliad.

Noder: Efallai y bydd gwerth eiddo unigolyn yn cael ei ddiystyru yn y prawf modd os oes perthynas yn byw yn yr eiddo hwnnw.

Disgwylir i unrhyw un sydd â chyfalaf eu hunain sy'n werth dros £24,000 ar hyn o bryd (gan gynnwys gwerth unrhyw eiddo) dalu am gostau llawn eu gofal hyd nes bod eu cyfalaf yn mynd yn is na'r trothwy hwn.

Os bydd gwerth asedau neu gynilion unigolyn yn is na'r terfyn cyfalaf, bydd dim ond disgwyl iddynt gyfrannu o'u hincwm o ddydd i ddydd – er enghraifft, Pensiwn y Wladwriaeth neu bensiwn galwedigaethol/preifat.

Gofal dibreswyl

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod terfyn uchaf ar gostau gofal cymdeithasol dibreswyl (fel gofal cartref neu ofal dydd) – yr uchafswm y bydd unrhyw un yn ei dalu am ofal dibreswyl ar hyn o bryd yw £60 yr wythnos.

Ceir canllawiau manwl i'r trefniadau ar gyfer talu am ofal yn **Rheoliadau Gofal a Chymorth (Codi Taliadau) (Cymru) 2015/1843**, **Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu Ariannol) (Cymru) 2015/1844** a Rhannau 4 a 5 o **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** ar godi taliadau ac asesiad ariannol.